P777U220  LT HP

**LC177**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Darpariaethau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2001

### Y Cefndir

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddau offeryn statudol sydd, yn eu tro, yn ymwneud â rheoli arbelydru bwyd a labelu bwyd sydd wedi'i arbelydru.  Mae'r diwygiadau hyn yn cael eu gwneud yn sgil Cyfarwyddebau'r UE.

Gwnaed Rheoliadau i'r un perwyl yn Lloegr ar 21 Awst 2000 a daethant i rym ar 20 Medi (O.S. 2000/2254).

### Rheol Sefydlog 11.5

Mae Rheoliadau Lloegr wedi'u hystyried gan y Cyd-bwyllgor Seneddol ar Offerynnau Statudol ac adroddwyd amdanynt yn 32ain Adroddiad y Pwyllgor ar Sesiwn 1999/2000. Mae'r dyfyniad perthnasol o'r Adroddiad hwnnw wedi'i atodi.

O'r pwyntiau a godwyd gan y Cyd-bwyllgor dim ond yr un ym mharagraff 11 o'u Hadroddiad sydd wedi'i gymryd i ystyriaeth yn Rheoliadau Cymru.  Gan hynny, mae'r Pwyllgor yn gorfod cofnodi bod pob eitem arall o ddrafftio diffygiol yr adroddwyd amdani gan y Cyd-bwyllgor yn ddrafftio diffygiol yn yr un modd yn Rheoliadau Cymru.  Yn ychwanegol, mae'r pwynt a nodwyd ym mharagraff 9 o Adroddiad y Cyd-bwyllgor yn fater y byddai angen ei adrodd fel un sy'n gofyn am esboniad.

Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn derbyn y byddai'n briodol cywiro pob un o'r materion hyn drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau o dan Reol Sefydlog 22.13.  Gyda golwg ar y

pwynt sy’n cael ei godi ym mharagraff 9 o Adroddiad y Cyd-bwyllgor, mae'r Pwyllgor o’r farn y gellid ymdrin â hwnnw naill ai drwy ddarpariaeth yn y Nodyn Esboniadol neu drwy ddiwygio Rheoliad 9(c).  Dylid nodi hefyd y bydd rhai o'r cywiriadau yn ei gwneud yn angenrheidiol bod diwygiadau canlyniadol yn cael eu gwneud yn y Nodyn Esboniadol.

Felly, ar yr amod bod Memorandwm Cywiriadau sy'n ymdrin â'r holl bwyntiau hyn yn cael ei gyflwyno'n briodol, mae'r Pwyllgor yn fodlon cyflwyno adroddiad nad oes unrhyw bwyntiau y mae angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.  Os na chyflwynir unrhyw Femorandwm o'r fath, bydd y Cynulliad, yn ddarostyngedig i unrhyw sylwadau y bydd y Gweinidog perthnasol am eu cyflwyno o dan Reol Sefydlog 11.4, yn gorfod gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r pwyntiau a nodir yn yr Atodiad i'r Adroddiad hwn.

**Sylwadau Cyffredinol**

Mae mân bwyntiau teipograffyddol wedi'u nodi fel a ganlyn -

- Y Nodyn Esboniadol, paragraff 6(e) yn y testun Saesneg - dylai "bottle" fod yn "bottles".
- Y Pennawd (yn y testun Saesneg) - mae "FOOD" wedi'i hepgor o'r OS ei hun.
- Dod i rym – mae’r dyddiad wedi’i adael allan o’r pennawd.

**MICK BATES A.C.**
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfau

27 Chwefror 2001